CHIEF OFFICER NEIGHBOURHOODS, PLANNING & PUBLIC PROTECTION/PRIF SWYDDOG GWASANAETHAU CYMDOGAETH, CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD
Rachel Jowitt

TORFAEN COUNTY BOROUGH / BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Your ref/Eich cyf:
Our ref/Ein cyf: JG/AOP10
Date/Dyddiad: 29 January 2019

Please contact/Cysyllter â:
Direct line/Llinell union: 01495 766116
Direct fax/Llinell ffacs: 01495 766709
Email/Ebost: Joanna.giatra@torfaen.gov.uk

Dear Sir or Madam

PLAYING FIELD REGULATIONS CONSULTATION: RUGBY GROUNDS WITHIN PONTYPOOL PARK

Pontypool Park is an important environmental, leisure and cultural venue within the town and therefore you are invited to comment on proposals to the rugby grounds area within the park.

The Park is owned by Torfaen County Borough Council and, when it was transferred to the Council, the Council covenanted that it would hold the Park "for the use of the public". It is proposed that this legal requirement be slightly amended to give flexibility on how the rugby grounds area is managed moving forward. With these proposals the Council would be able to work in partnership with Pontypool Rugby Limited and give the Club exclusive possession of the grounds so that it can have greater influence and control on the rugby pitch and stand to resolve vandalism issues. The area that is being consulted upon is outlined in red on the enclosed plan. However the rest of Pontypool Park will still be subject to the covenant and managed accordingly for everyone's use and enjoyment.

The consultation is being undertaken in accordance with the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Regulations 2015. This is a legal process that is an important step prior to the Council taking a decision as to whether to grant a lease to Pontypool Rugby Ltd., giving the club security for the future, allowing it to invest in and improve the rugby ground's facilities. It should be stressed this consultation is on a specific matter i.e. the management of the Park and the rugby grounds. We understand that Pontypool Rugby Ltd. will shortly be submitting a planning application for improvements to the grounds and these will be subject to their own consultation and legal processes which are entirely separate from this Playing Fields consultation.

The consultation period is open for six weeks and will close at 5pm on 15th March 2019. During this period, you are invited to send comments on the proposals to me at the address below.

Please find enclosed the formal consultation Notice and plan referred to.

FAO Joanna Giatra
Torfaen County Borough Council
Ty Blaen Torfaen
Panteg Way
New Inn
Pontypool
NP4 0LS
joanna.giatra@torfaen.gov.uk

Yours sincerely

Joanna Giatra
COMMUNITY ENVIRONMENT OFFICER
NEIGHBURHOOD SERVICES

CHIEF OFFICER NEIGHBOURHOODS, PLANNING & PUBLIC PROTECTION/PRIF SWYDDOG GWASANAETHAU CYMDOGAETH, CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD
Rachel Jowitt

TORFAEN COUNTY BOROUGH / BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Your ref/Eich cyf:
Our ref/Ein cyf: JG/AOP10
Date/Dyddiad: 29 Ionawr 2019

Please contact/Cysyllter â:
Direct line/Llinell union: 01495 766116
Direct fax/Llinell ffacs: 01495 766709
Email/Ebost: Joanna.giatra@torfaen.gov.uk

Annwyl Syr neu Fadam

YMGYNGHORIAD RHEOLIADAU MEYSYDD CHWARAE – MEYSYDD RYGBI ODDI MEWN I BARC PONT-Y-PŴL

Mae Parc Pont-y-pŵl yn lleoliad amgylcheddol, hamdden a diwylliannol pwysig yn y dref a gwahoddir chi felly i wneud sylwadau ar argymhellion mewn perthynas ag ardal y meysydd rygbi yn y parc.

Mae'r Parc yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a, phan drosglwyddwyd ef i'r Cyngor, rhoddodd y Cyngor gyfamod y byddai'n cadw'r Parc "at ddefnydd y cyhoedd". Cynigir fod y gofyniad cyfreithiol hwn yn cael ei ddiwygio ychydig i roi hyblygrwydd ar sut bydd ardal y meysydd rygbi'n cael ei rheoli yn y dyfodol. Gyda'r argymhellion yma bydd y Cyngor yn gallu gweithio mewn partneriaeth â Pontypool Rugby Ltd a rhoi meddiant dethol o'r meysydd i'r Clwb fel y gall gael mwy o ddylanwad a rheolaeth ar y cae rygbi a'r eisteddle er mwyn mynd i'r afael â phroblemau fandaliaeth. Mae'r ardal sy'n destun ymgynghoriad wedi ei hamlinellu'n goch ar y cynllun amgaeedig. Serch hynny bydd gweddill Parc Pont-y-pŵl yn dal i fod yn rhwym wrth y cyfamod ac yn cael ei reoli'n briodol ar gyfer defnydd a mwynhad pawb.

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015. Mae hon yn broses gyfreithiol sy'n gam bwysig cyn bod y Cyngor yn penderfynu p'un ai i roi prydles i Pontypool Rugby Ltd, gan roi sicrwydd i'r clwb at y dyfodol gan ganiatáu iddo fuddsoddi yng nghyfleusterau'r maes rygbi a'u gwella. Dylid pwysleisio fod yr ymgynghoriad hwn ar fater penodol h.y. rheolaeth y Parc a'r meysydd rygbi. Rydym yn deall y bydd Pontypool Rugby Ltd yn cyflwyno cais cynllunio cyn bo hir am welliannau i'r meysydd a bydd ymgynghoriad ar y cais hwn hefyd a phrosesau cyfreithiol sydd ar wahân i'r ymgynghoriad yma ar y Meysydd Chwarae.

Mae'r cyfnod ymgynghorol ar agor am chwe wythnos a bydd yn cau am 5pm ar 15fed o Fawrth 2019. Yn ystod y cyfnod hwn gwahoddir i chi ddanfon sylwadau ar yr argymhellion ataf i i'r cyfeiriad isod.

Mae'r Hysbysiad ffurfiol yn amgaeedig ynghyd â'r cynllun y cyfeirir ato.

At Sylw: Joanna Giatra
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Tŷ Blaen Torfaen
Panteg Way
Y Dafarn Newydd
Pont-y-pŵl
NP4 0LS
joanna.giatra@torfaen.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir

Joanna Giatra
SWYDDOG AMGYLCHEDD CYMUNEDOL
GWASANAETHAU CYMDOGAETHAU

APPENDIX 4

TORFAEN COUNTY BOROUGH COUNCIL
NOTICE OF PROPOSAL TO DISPOSE OF PART OF A PLAYING FIELD

NOTICE is hereby given pursuant to Regulation 5 of The Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Regulations 2015 ("2015 Regulations") that the Council is proposing to exercise its powers under s123(1) of the Local Government Act 1972 to dispose, by way of a lease to Pontypool Rugby Limited, the rugby pitch at Pontypool Park, Pontypool, Torfaen which for identification purposes is described in the Schedule to this Notice and shown edged red on the plan referred to in the Schedule to this Notice.

Details of the proposed disposal may be inspected during normal office hours for a period of 6 weeks from the date of this Notice at the following places:

1. Civic Centre
2. Ty Blaen
3. Pontypool Active Living Centre

The public have the right to make representations to the Council on the proposed disposal. Any representations must be made in writing and addressed to Jo Giatra at Torfaen County Borough Council, Ty Blaen, Panteg Way, New Inn NP4 0LS by no later than 5pm on 15 March 2019.

Signed: Dated: 29.01.19

Rachel Jowitt
Chief Officer, Neighbourhoods, Planning and Public Protection

Schedule

Land Description	Approximate Area M2	Plan Reference
Rugby pitch, perimeter path and open spectator terrace	18,898 m2	

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
HYSBYSIAD O FWRIAD I WAREDU RHAN O GAE CHWARAE

HYSBYSIR trwy hyn yn unol â Rheoliad 5 Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") bod y Cyngor yn bwriadu defnyddio ei bwerau o dan adran 123(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i waredu, trwy brydles i Glwb Rygbi Pont-y-pŵl, y maes rygbi ym Mharc Pont-y-pŵl, Pont-y-pŵl, Torfaen sydd at ddibenion adnabod yn cael ei ddisgrifio yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn ac yn cael ei ddangos ag ymyl goch ar y cynllun y cyfeirir ato yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Gellir archwilio manylion y gwarediad arfaethedig yn ystod oriau swyddfa arferol am gyfnod o 6 wythnos o ddyddiad yr Hysbysiad hwn yn y lleoedd canlynol:

1. Y Ganolfan Ddinesig
2. Tŷ Blaen
3. Canolfan Byw'n Egnïol Pont-y-pŵl

Mae gan y cyhoedd hawl i wneud sylwadau wrth y Cyngor ynglŷn â'r gwarediad arfaethedig. Rhaid gwneud unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig a'u cyfeirio at Jo Giatra yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Tŷ Blaen, Panteg Way, Y Dafarn Newydd NP4 0LS erbyn nid yn hwyrach na 5pm ar 15fed o Fawrth 2019.

Llofnod:  Dyddiad: 29.01.19

Rachel Jowitt
Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu'r

Atodlen

Disgrifiad o'r Tir	Bras amcan o'r Arwynebedd M2	Cyfeirnod y Cynllun
Maes rygbi, llwybr o gwmpas y perimedr a theras agored i wylwyr	18,898 m2	